**PET(3) 13-10 Atodiad 1**

**Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau – Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) i Bobl Ifanc sy'n agored i niwed**

## Cefndir

### Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith

1 O dan adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae yna ddyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cyfleusterau priodol neu resymol ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru.

2 Wrth wraidd strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru mae yna system Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) gref a chredadwy, ac mae WBL yn rhan bwysig o'r gwaith o gryfhau cyfraniad addysg a hyfforddiant ym maes datblygu economaidd, gwneud dysgu'n rhan o ddiwrnod gwaith, ac edrych ar fuddiannau dysgwyr a chyflogwyr.

3 Nod y rhaglenni WBL sydd ar waith yng Nghymru yw:

- Darparu ystod eang o sgiliau cymhwysedd a gwybodaeth er mwyn gwella cyflogadwyedd a datblygiad gyrfa;
- Galluogi cyfranogwyr di-waith i ennill sgiliau a phrofiad gwaith fel rhan o ymgyrch ehangach i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd a helpu pobl i ddod allan o anweithgarwch a thlodi; a
- Helpu i ddarparu gweithlu i gyflogwyr sydd â'r sgiliau i gystadlu yn yr economi "seiliedig ar wybodaeth".

4 Mae rhaglenni WBL Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys dwy raglen 'flaenllaw', sef Adeiladu Sgiliau a Phrentisiaethau.

### Adeiladu Sgiliau

5 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu rhaglen hyfforddi sgiliau paratoadol a Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ***pob oed*** ar hyn o bryd, i bobl iau (16-18) ac oedolion (18+). Enw'r rhaglen yw Adeiladu Sgiliau. Nod y rhaglen yw darparu sgiliau a chymwysterau personol a chyflogadwy allweddol i ddysgwyr a fydd yn eu galluogi i ymuno â'r farchnad waith a chynnal cyflogaeth gynaliadwy.

6 Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Nodi'r rhwystrau dysgu sy'n atal y dysgwr rhag cymryd rhan yn syth mewn dysgu galwedigaethol ar lefel 1, 2, neu 3;
- Nodi a mynd i'r afael ag angen Sgiliau Sylfaenol;
- Cyfleoedd dysgu sy'n darparu'r sgiliau eang a hyblyg sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w galluogi i fod yn fwy gweithredol yn y gweithlu a'r gymdeithas yn gyffredinol; a
- Dysgu galwedigaethol at lefel alwedigaethol 1 neu 2 neu 3

**Prentisiaethau**

7 Rhaglenni dysgu seiliedig ar gyflogaeth i ddysgwyr cyflogedig yw prentisiaethau. Mae prentisiaethau'n rhoi cyfle i bobl ifanc ac oedolion ddatblygu'n gyflym o fewn eu galwedigaeth ddewisol, gan ddarparu sgiliau trosglwyddadwy iddynt yn ogystal â'r gallu i wneud sgil neu grefft benodol. Maent yn bont rhwng dysgu llawn amser a chyflogaeth. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau o safon trwy brentisiaethau yn cynnig manteision i unigolion, cyflogwyr a'r economi.

8 Nid yw prentisiaeth yn gymhwyster yn ei hunan, ond mae'n fframwaith a gynlluniwyd gan y Cyngor Sgiliau Sector neu'r corff gosod safonau perthnasol sy'n cynnwys nifer o gymwysterau gwahanol, a rhaid llwyddo ym mhob un ohonynt er mwyn cwblhau'r fframwaith. Diben y fframweithiau yw galluogi dysgwyr i ennill sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i'r diwydiant ehangach, yn ogystal â sgiliau penodol sy'n gysylltiedig â phob fframwaith. Ceir oddeutu 190 o fframweithiau prentisiaeth gwahanol ar draws 80 sector diwydiant.

9 Mae yna dair lefel o Brentisiaeth ar gael trwy'r WBL i'r rheiny sy'n 16 oed a hŷn:

**1 - Prentisiaethau Sylfaen:** Mae Prentisiaid Sylfaen yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 2, Sgiliau Allweddol ac, mewn rhai achosion, cymhwyster seiliedig ar wybodaeth berthnasol.

**2 – Prentisiaethau:** Mae prentisiaid yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 3, Sgiliau Allweddol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, tystysgrif seiliedig ar wybodaeth berthnasol.

**3 – Prentisiaethau Uwch:** Mae Prentisiaid Uwch yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 4 ac, mewn rhai achosion, cymhwyster seiliedig ar wybodaeth fel gradd Sylfaen.

10 <u>Cylch Gorchwyl ar gyfer Tystiolaeth</u>

**Argaeledd a Safon Rhaglenni Hyfforddi WBL**

10.1 Gall faint o leoedd hyfforddi sydd ar gael amrywio yn ôl y llwybr sydd o ddiddordeb i'r dysgwr a lle mae'n byw. Gall Cynghorydd Gyrfa Cymru ddarparu gwybodaeth am swyddi a chyfleoedd hyfforddi sydd ar gael yn ardal leol y dysgwr.

10.2 Yn ystod 2009/2010 ac yn seiliedig ar broffiliau Darparwyr, cefnogodd y rhaglen Adeiladu Sgiliau tua 10,500 o ddysgwyr 16-18 mlwydd oed a hyd at 6,000 o ddysgwyr dros 18 oed. Mae hyn yn golygu bod tua £35.6 miliwn o arian wedi'i fuddsoddi at ddarpariaeth i Ieuenctid (gan gynnwys lwfansau) a £9.4 miliwn at ddarpariaeth oedolion.

10.3 Mae cyfanswm gwerth y contract Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer 2010/11 wedi cael ei gynnal ar y lefelau a gynigiwyd yn 2009/10, h.y. tua £127,000,000.

10.4 Yn yr Uwchgynhadledd Economaidd ar 6 Ebrill 2009 cyhoeddwyd pecyn o £20,000,000 o leiaf i helpu pobl i ennill sgiliau newydd. O'r swm hwn, rhyddhaodd Llywodraeth y Cynulliad £6 miliwn er mwyn cynyddu gallu o fewn y rhaglen Adeiladu Sgiliau sefydledig er mwyn ymateb i'r galw cynyddol o ganlyniad i'r cynnydd mewn diweithdra, a'r angen i unigolion penodol roi ffocws newydd i'w sgiliau a'u dyheadau.

<u>Safon</u>

10.5 O dan fframwaith ESTYN a oedd yn weithredol tan fis Awst 2010, nid yw gradd 4 na 5 yn cyrraedd safon foddhaol. Caiff y rhaglen Adeiladu Sgiliau ei harchwilio o dan y maes pwnc sector "Sylfaen ar gyfer Gwaith". Ar hyn o bryd, mae pob darparwr ar radd 3 (boddhaol) neu uwch. O fis Medi 2010, ni fydd Estyn yn cyflwyno graddau i feysydd pwnc sectorau unigol bellach. Yn hytrach, bydd yn rhoi barn gyffredinol ar safonau pob darparwr a'i allu i wella.

10.6 Wrth i Estyn archwilio'r rhaglen Adeiladu Sgiliau, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiad dysgwr, ei gyraeddiadau a'i lwyddiant o ran ennill cymwysterau. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn canolbwyntio ar ddatblygiad cadarnhaol fel prif fesur y rhaglen, yn hytrach na'r cymwysterau a gyflwynwyd - ond mae llwyddo yn y gweithgaredd dysgu'n cael ei ystyried fel allbwn eilaidd yn ein gwaith o fesur safon.

10.7 O ran y data perfformio diweddaraf (2008/09) ar gyfer y Rhaglen Adeiladu Sgiliau, mae'r mwyafrif o ddarparwyr Adeiladu Sgiliau'n ennill sgorau uwch na throthwy'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (QEF) ar gyfer "Da". Adlewyrchir hyn yng nghyfartaledd cenedlaethol y datblygiadau cadarnhaol yn 2008/09 sef 71%, sydd lawer uwch na'r meincnod ar gyfer y rhaglen Adeiladu Sgiliau i oedolion, a oedd yn 45% ar gyfer yr un cyfnod.

10.8 O'r 48 o ddarparwyr a gontractiwyd i gyflwyno Adeiladu Sgiliau Ieuenctid yn 2008/09:

- Nodwyd bod 56% wedi cyflwyno'r rhaglen Ieuenctid yn "Rhagorol".
- Nodwyd bod 25% wedi cyflwyno'r rhaglen Ieuenctid yn "Dda" (gyda chyfanswm o 81% o'r darparwyr yn perfformio yn y ddau gategori uchaf).
- Cyflwynodd 15% y rhaglen Ieuenctid yn "Ddigonol".
- Cyflwynodd 4% (neu ddau ddarparwr) y rhaglen Ieuenctid yn "Anfoddhaol".

10.9 Mae'n werth nodi mai ychydig iawn o ddarpariaeth Adeiladu Sgiliau a ddarperir gan y darparwyr hynny a nodwyd yn "Anfoddhaol", felly ni roddir llawer o bwys ar y data gan ei fod yn agored i amrywiadau sy'n gysylltiedig â nifer bach sy'n camliwio perfformiad.

10.10 Rhaid i'r holl ddarparwyr a gyflawnodd yn "Foddhaol" neu'n "Anfoddhaol" ddangos i APADGOS eu bod yn mynd i'r afael â'r problemau a'u bod yn ceisio gwella perfformiad er mwyn cyflawni'r categori "Da". Bydd pob un ohonynt yn cael asesiad dilynol fel rhan o broses y QEF.

**Datblygiad ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed**

10.11 'Datblygiadau cadarnhaol' o'r rhaglen Adeiladu Sgiliau yw datblygu i ddysgu pellach neu gyflogaeth, a chyfrifir y datblygiadau ar sail data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a gyflwynir gan ddarparwyr. O 2010/11, byddwn yn cryfhau ein gofynion ac yn gwneud y diffiniad 'datblygiadau cadarnhaol' yn fwy penodol; bydd rhaid i ddysgwyr ddatblygu i gyflogaeth neu i lefel uwch o ddysgu. Bydd hyd y dysgu pellach neu gyflogaeth hefyd yn cael ei nodi mewn mwy o fanylder.

10.12 O fis Awst 2011, mae targed perfformio lleiaf ar gyfer datblygiadau'n cael ei osod am y tro cyntaf mewn contractau WBL, ac mae APADGOS wrthi'n sefydlu trothwyon perfformio ar gyfer y blynyddoedd nesaf a fydd yn cael eu cyflwyno i ddarparwyr ym mis Medi. Bydd hyn yn cynnwys targedau heriol ar gyfer cyflawni safon perfformio 'rhagorol'.

Cyflogaeth Pobl Ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) a Chronfa Swyddi'r Dyfodol (FJF)

10.13 Ym mis Ebrill 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gynllun NEET- '*Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant'* - i gefnogi a helpu i leihau nifer y bobl ifanc NEET.

10.14 Mae Cynllun NEET, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc rhwng 16-18 oed yng Nghymru, yn darparu nifer o gamau gweithredu strategol ac ymarferol i gefnogi a helpu gyda'r gwaith o gael pobl ifanc i ail-gydio mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a'u hatal rhag ymddieithrio. Mae'n amlinellu'r angen i wella systemau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ymgysylltu a bod eu datblygiad yn cael ei fonitro. Amlygir yr angen am well cyngor ac arweiniad i bobl ifanc hefyd gyda'r nod o ddarparu'r cymorth a'r ddarpariaeth briodol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol. Mae'n nodi'r angen i weithio'n lleol er mwyn sicrhau bod y systemau iawn, y ddarpariaeth iawn a'r cymorth iawn ar gael er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru allu darparu gwasanaeth integredig di-dor a fydd yn ail-ennyn diddordeb y grŵp hwn o bobl ifanc ddifreintiedig ac yn lleihau dyblygu gwaith lle bo'n bosibl.

10.15 Yn fwy diweddar, mae tri adroddiad wedi'u cyhoeddi sy'n edrych ar y broblem eang o ddiweithdra ymhlith ieuenctid yng Nghymru. Yr adroddiad cyntaf yw Adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ar ddiweithdra ymhlith ieuenctid sydd wedi'i gyhoeddi fel rhan o Ail Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, 'Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf'. Yr ail yw adroddiad Grŵp Adolygu Gweithredol mewnol ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET). Y trydydd yw adroddiad y *Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiweithdra Ieuenctid* a gadeirir gan Martin Mansfield o TUC Cymru.

10.16 Mae canolbwynt a chylch gwaith pob adroddiad rhywfaint yn wahanol ond mae nifer o'u hargymhellion yn cyd-fynd â'i gilydd. Yn unol ag argymhellion yr adroddiadau, cyflwynwyd rhaglen waith i fynd i'r afael ag ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid yng Nghymru i'r Cabinet ym mis Medi a bydd yn cael ei hystyried yn y misoedd i ddod. Yn ogystal â hyn, mae yna gynigion i ddatblygu rhaglen profiad gwaith gwirfoddol newydd a rhaglen farchnad lafur canolradd newydd – diben y ddwy fydd cael pobl ifanc sy'n agored i niwed i gymryd rhan mewn gweithgarwch priodol, am y tro cyntaf neu unwaith eto.

10.17 Cyhoeddwyd Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn y Gyllideb yn 2009 ac roedd yn gronfa o thua £1 biliwn i gefnogi'r gwaith o greu swyddi i bobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith ac eraill sy'n wynebu anfantais sylweddol yn y farchnad lafur. Nod y gronfa, a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, oedd creu 170,000 o swyddi dros dro tan 2011. Mae'r Gronfa'n cyfrannu hyd at £6,500 y swydd fel lleiafswm, rhaid i'r swyddi fod er lles y gymuned leol; darparu o leiaf 25 awr yr wythnos o gyflogaeth; talu o leiaf yr isafswm cyflog cenedlaethol; a phara am o leiaf 6 mis.

10.18 Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithredu Rhaglen Waith sengl nawr i helpu cwsmeriaid di-waith ddychwelyd i waith. Ni fydd unrhyw gynigion eraill yn cael eu cymeradwyo a bydd y Gronfa'n cau i geisiadau newydd yn syth. Ni fydd Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cael ei hymestyn i 2011/12.

10.19 Bydd pob ymrwymiad cyfredol yn cael ei anrhydeddu a, hyd yma, mae mwy na 28 prosiect o dan Gronfa Swyddi'r Dyfodol wedi'u cymeradwyo ar gyfer Cymru gyda'r potensial i greu dros 10,000 o swyddi ac i ddenu tua £60 miliwn o arian i Gymru.

10.20 Mae Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn rhan o'r Gwarant i Bobl Ifanc ehangach sy'n cynnig hyfforddiant llawn amser, swydd go iawn neu brofiad gwaith i bob person ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y Gwarant i Bobl Ifanc yn cael ei ymestyn ymhellach i 2011-12 fel y bwriadwyd ei wneud gan y weinyddiaeth flaenorol. Cyhoeddwyd yr estyniad hwn o'r Gwarant i Bobl Ifanc i 2011-12 yng Nghyllideb 2010. Mae Llywodraeth Cynulliad

Cymru'n darparu elfennau hyfforddi'r Gwarant i Bobl Ifanc trwy Adeiladu Sgiliau.

10.21 Bydd y Gwarant i Bobl Ifanc yn parhau fel y bwriadwyd ledled y DU tan fis Mawrth 2011.

## Cymorth Ariannol

Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)

10.22 Cafodd cynllun EMA Cymru ei gyflwyno'n llawn yn 2006/07 i bobl ifanc 16 – 18 oed mewn Addysg Bellach. Mae hwn yn lwfans wythnosol a delir pob pythefnos, ar sail presenoldeb boddhaol, i ddysgwyr sy'n mynychu canolfannau dysgu yng Nghymru. Telir £10, £20 neu £30 yr wythnos, yn dibynnu ar incwm y cartref, a gellid ennill bonysau o £100 o bryd i'w gilydd os bodlonir yr amcanion dysgu neu os dychwelir i ail flwyddyn cwrs.

10.23 Nod gwreiddiol yr EMA oedd mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng incwm isel a chyfranogiad isel trwy ddarparu cymhelliad ariannol i bobl ifanc o gartrefi incwm isel aros mewn addysg llawn amser wedi'r cyfnod addysg gorfodol.

10.24 Mae APADGOS wrthi'n archwilio i'r posibilrwydd a'r dichonoldeb o gyflwyno'r Cynllun EMA (Cymru) yn y system Dysgu Seiliedig ar Waith i bobl ifanc di-waith o 2012.

Lwfansau Dysgu

10.25 Ar hyn o bryd, rhaid i ddysgwyr ifanc â statws gwarant/gwarant estynedig ar raglenni Adeiladu Sgiliau gael lwfans o £50.00 neu fwy yr wythnos. Rhaid cael y cyfraniad mwyaf posibl gan gyflogwyr er mwyn cefnogi'r costau hyn. Bydd Dysgwyr ar Hyfforddeiaeth (L1) yn parhau i dderbyn y lwfans hwn tan o leiaf 2012 (gweler yr EMA uchod).

10.26 I ddysgwyr sy'n oedolion, telir lwfansau dysgu gan y Ganolfan Byd Gwaith i ddysgwyr di-waith sy'n dymuno eu derbyn. Mae'r lwfans yn cynnwys:

- Swm sy'n gyfwerth â'r Lwfans Ceisio Gwaith a/neu'r Cymhorthdal Incwm y byddai dysgwr wedi'i dderbyn tra'r oedd yn ddi-waith; a
- phremiwm dysgu i'r rheiny sy'n dysgu.

Arian ar gyfer Teithio a Llety

10.27 Fe allai dysgwyr ar raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith nad ydynt mewn gwaith cyflogedig fod yn gymwys i dderbyn cyfraniad tuag at gostau teithio sy'n fwy na £5 yr wythnos. Gall dysgwyr hawlio treuliau teithio rhesymol a gododd yn sgil teithio'n ôl ac ymlaen i'w lle dysgu.

10.28 Yn ogystal â hyn, gallai dysgwyr nad ydynt mewn gwaith cyflogedig fod yn gymwys i dderbyn cyfraniad tuag at gostau llety, lle mae'n hanfodol i ddysgwr gael llety er mwyn gallu dysgu.

Arian ar gyfer gofal plant

10.29 Mae cymorth gofal plant ar gael i ddysgwyr ar raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith nad ydynt mewn gwaith cyflogedig ac sy'n rhieni sengl. Gallai dysgwyr fod yn gymwys i dderbyn cyfraniad tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu achrededig, hyd at uchafswm o £29.75 y diwrnod neu £148.75 yr wythnos am y plentyn cyntaf a £51 y diwrnod neu £255 yr wythnos i ddau blentyn neu ragor.

10.30 Dangosir y lefelau buddsoddi cyfredol ar gyfer Gofal Plant, Teithio a Llety isod:

2008/09
Teithio a Llety: £857,817.50
Gofal Plant: £144,813.68

2009/10
Teithio a Llety: £765,239.57 (hyd yma)
Gofal Plant: £311,143.63 (hyd yma)

Cymorth i Ddysgwyr a'r system Fudd-daliadau

10.31 Er mai rhan o waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yw hyn, mae swyddogion o fewn APADGOS wedi edrych ar gymorth budd-daliadau i bobl ifanc sy'n agored i niwed a'u hawl i'w derbyn ac maent wedi derbyn y wybodaeth ganlynol.

10.32 Gall pobl ifanc sy'n ddigartref, neu'n byw'n annibynnol, dderbyn £51.85 mewn budd-daliadau, yn ogystal â lwfans tai. Mae person ifanc sy'n cael ei gyfeirio at ddarpariaeth Addysg Bellach yn parhau i dderbyn lwfans budd-daliadau, yn ogystal â £30 yr EMA sy'n gyfanswm o £81.85.

10.33 Bydd y dysgwyr hynny a gefnogwyd gan Gyrfa Cymru a'u cyfeirio at Adeiladu Sgiliau fel y llwybr hyfforddi priodol yn gallu derbyn Lwfans Hyfforddi o £50, a delir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r lwfans hwn yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill y gallent fod â hawl i'w derbyn. Fodd bynnag, gallant hawlio'r gwahaniaeth o £1.85, a fydd yn dod â'r cyfanswm i £51.85.

10.34 Mae cydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau'n nodi bod yr EMA wedi'i gyflwyno i gynnig cymhelliad ariannol i bobl ifanc aros mewn addysg a hyfforddiant. Cytunwyd i'w anwybyddu at ddibenion budd-daliadau gan nad oedd yn bodoli ar gyfer cynhaliaeth yn unig. Ni all yr Adran Gwaith a Phensiynau anwybyddu arian a gyflwynir i'r un diben â thaliad budd-dal, h.y. at ddibenion cynhaliaeth (fel yn yr achos gyda Lwfans Hyfforddi Adeiladu Sgiliau).

**Cefnogaeth a chymorth personol i bobl sy'n gadael gofal**

10.35 Mae yna gymorth sylweddol ar gael i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol neu'n ddigartref er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus:

- Mae Deddf Plant 2004, a'i dogfennau canllaw statudol cysylltiedig, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a phartneriaid amrywiol i gydweithio a gwella lles plant ym mhob ardal awdurdod lleol;

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau a Chynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau sy'n amlinellu'r prif feysydd y disgwylir i'r Partneriaethau awdurdod lleol hyn ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys Addysg a Chyfleoedd Dysgu a Chartref a Chymuned Diogel; ac

- Amcanion Nod Craidd Addysg a Chyfleoedd Dysgu yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael addysg lawn amser; y dylai unrhyw rwystrau i ddysgu gael eu hadnabod a'u dileu'n gynnar; dylai plentyn/person ifanc gyrraedd ei botensial llawn; parhau mewn hyfforddiant addysg ffurfiol ac anffurfiol pwrpasol neu waith hyd at 19 oed; a chyflawni lles cymdeithasol ac economaidd.

10.36 Mae'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol neu'n ddigartref yn cael ei hwyluso a'i gynnal gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP). Mae'r rhain yn gweithredu ym mhob ardal awdurdod lleol ac maent yn uno'r asiantaethau a'r sefydliadau amrywiol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion y plant 'mwyaf anghenus'. Dylai cynlluniau CYPP gyflwyno sut y bydd asiantaethau a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny sy'n fwyaf anghenus.

10.37 I bob ifanc 18 oed a hŷn, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sy'n ddigartref, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn hwyluso mynediad i amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys cynnig o hyfforddiant neu gyflogaeth trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau neu raglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu gael eu cyfeirio i Gyrfa Cymru am gyfoeth o wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol. Yn ogystal â hyn, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner, gan gynnwys rhai yn y Trydydd Sector, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a fydd yn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol i hyfforddiant neu gyflogaeth.

10.38 Yn ogystal â hyn, mae 'Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd' Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys camau gweithredu i wella

mynediad i hyfforddiant i bob person digartref, gan gynnwys pobl ifanc 16-18 oed. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno trwy weithgor sy'n canolbwyntio ar waith traws-sector, dealltwriaeth, partneriaeth ac ymgysylltu â phob defnyddiwr gwasanaethau. Y nod yw annog cyfathrebu a chysylltu rhwng asiantaethau yn y sector digartrefedd a'r sectorau cyflogaeth, sgiliau a dysgu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael cymaint o gyfleoedd datblygu â phosibl.

10.39 Mae Cyfarwyddiaeth Tai Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi defnyddio un flynedd o arian yr ymarfer i amlygu adnoddau i ariannu prosiect i greu gwasanaethau tai sy'n datblygu cyfleoedd i bobl ifanc wedi'u hallgáu trwy ddysgu sgiliau a gwaith. Fel rhan o'r gweithgaredd hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu ymarfer gwerthuso i adolygu effaith y prosiect hwn.

10.40 Cyhoeddodd Llywodraeth Glymblaid y DU gyfres o ddiwygiadau lles fel rhan o'r Gytundeb Glymblaid a gyhoeddwyd ar 20 Mai 2010. Un o elfennau allweddol y Gytundeb Glymblaid yw cyflwyniad Rhaglen Waith sengl a mesurau cysylltiedig i gynorthwyo pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Er bod yr holl fesurau a gyhoeddwyd yn parhau i gael eu datblygu, darparwyd arwyddion cynnar o'u fframwaith trwy drafodaethau â swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau.

10.41 Yn fyr, mae APADGOS yn gweithio'n agos ag Adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod iechyd a lles pobl ifanc nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn cael eu cysylltu'n annatod â datblygu cyfleoedd dysgu newydd.

<u>Pobl Ifanc Agored i Niwed a arferai fod mewn gofal</u>

10.42 O ran mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc a arferai fod yng ngofal awdurdod lleol ac sydd wedi dewis byw'n annibynnol, caiff cynghorydd ei benodi i'r unigolyn, a fydd yn cytuno ar gynllun llwybr i alluogi'r person ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am ei ddyfodol.

10.43 Penodir y cynghorydd personol a chytunir ar gynllun llwybr cyn i'r person ifanc gyrraedd 16 oed a gadael addysg orfodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y person ifanc a anogir i leisio ei farn, ei ddyheadau a'i fwriadau.

10.44 Mae'r cynllun llwybr yn seiliedig ar asesiad o angen a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Pan fydd Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn dod i rym yn Hydref 2010, bydd yr hawl i gysylltu â'r cynghorydd personol yn cael ei ymestyn i 25 oed (21 oed ar hyn o bryd).

10.45 Mae Cynghorwyr Personol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru, fel y gall pobl ifanc mewn gofal dderbyn cyngor ac arweiniad diduedd ar yr

amrywiaeth lawn o gyfleoedd ôl-16 sydd ar gael iddynt. Gall hyn gynnwys mynediad i'r rhaglen Porth Ieuenctid a gyflwynir gan Gyrfa Cymru, a gynlluniwyd i helpu pobl ifanc oresgyn rhwystrau i gael mynediad i ddysgu pellach neu gyflogaeth.

**Effeithiolrwydd cydweithrediad asiantaethau/gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru**

10.46 Er mwyn cynnig darpariaeth ddysgu lle mae ei hangen, mynd i'r afael â materion gallu a mynd i'r afael â'r angen am niferoedd dichonadwy, mae agenda Trawsnewid Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys annog darparwyr ar draws pob maes dysgu ôl-16 i fabwysiadu dull consortiwm neu bartneriaeth o weithredu, ac mae hyn yn cynnwys dull o weithredu mewn partneriaeth o fewn Dysgu Seiliedig ar Waith.

10.47 Croesawodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) y Polisi Trawsnewid o'r cychwyn cyntaf ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol er mwyn sicrhau bod y sector Dysgu Seiliedig ar Waith yn gwneud yr un cyfraniad at wella cyfleoedd dysgu i'r cohort 14-19 oed. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu grant i'r NTfW i archwilio'r cymorth y gall y WBL ei ddarparu i sicrhau portffolio dysgu llawn er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o weithredu trawsnewid lleol a rhanbarthol.

10.48 Bydd trefniadau caffael y contractau newydd ar gyfer WBL o fis Awst 2011 yn gofyn i Ddarparwyr WBL fod yn aelodau llawn a gweithredol o rwydweithiau cynllunio lleol.

**Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau – Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) i Bobl Ifanc sy'n agored i niwed**

## Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i helpu pobl ag anawsterau dysgu gael cyflogaeth?

### Cyfrifoldeb

1 Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau y maent yn eu cyflawni ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud trefniadau priodol ar gyfer helpu pobl i hyfforddi ar gyfer gwaith a chael gwaith sy'n briodol i'w hoedrannau a'u galluoedd. Mae yna nifer o raglenni ar waith yng Nghymru trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau a thrwy ei hasiant darparu, y Canolfan Byd Gwaith, i bobl sy'n ceisio cael gwaith ac sy'n hawlio budd-daliadau.

### Ymrwymiad

2 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau bod pob person anabl a phobl ag anawsterau dysgu'n cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gyrfaoedd boddhaol.

3 Mae'r 'Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 yn nodi bod 'Llywodraeth y Cynulliad yn credu ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n ceisio mwyhau potensial unigolyn i gael gweithio'n gyflogedig neu mewn modd adeiladol'.

### Rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru

4 **Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru** yw cynllun strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sgiliau a chyflogaeth i bob grŵp. Mae'n cyflwyno dull personol o gynorthwyo pobl i ennill sgiliau perthnasol ac yn eu cynorthwyo i gael gafael ar, a chadw, swydd â thâl. Mae'n berffaith i bobl ifanc ag anawsterau dysgu gan ei fod yn gymwys i bob grŵp o gleientiaid ac yn darparu dull personol o weithredu ac addasiadau rhesymol ym mhob rhaglen ddysgu.

5 Mae dysgwyr ifanc ag anawsterau dysgu'n gallu cael cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd. Trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor arbenigol i bobl ifanc ag anawsterau dysgu ar yr ystod eang o opsiynau gyrfaol a dysgu sydd ar gael, gallant wneud penderfyniadau gwybodus a realistig fel rhan o'u cynlluniau gyrfa parhaus. Mae darparwyr dysgu'n gweithio gyda chyflogwyr i ganfod lleoliadau profiad gwaith priodol.

6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi amrywiaeth o raglenni rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gael pobl ddi-waith ddifreintiedig dan anfantais o bob oed i mewn i gyflogaeth. Yn yr un modd â rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Bydd Gwaith, nid yw rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cyfyngu i grŵp oed, cyflwr iechyd neu anabledd dysgu penodol.

7 Gall pob un sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso fanteisiol ar raglenni Llywodraeth y Cynulliad, fel **Adeiladu Sgiliau** sy'n cynorthwyo oedolion a phobl ifanc di-waith trwy ddarparu'r sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen i gael cyflogaeth a'r sgiliau sylfaen i aros mewn cyflogaeth.

8 Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan rai sefydliadau i'r anabl, diwygiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei rhaglen o dan **Adeiladu Sgiliau**, fel cael gwared â'r cyfyngiad ar yr amser y caniateir i ddysgwr dreulio ar y rhaglen, a chysylltu gweithgareddau i brofiadau mewn gwaith yn hytrach na chymwysterau ffurfiol i bobl anabl a phobl ag anawsterau dysgu.

9 Gall **Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith** ar Raglenni **Adeiladu Sgiliau a Phrentisiaeth** hawlio arian 'Cymorth Dysgu Ychwanegol' i ddysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

10 Mae **Yn Awyddus i Weithio** yn cynnwys wardiau arbennig ledled Cymru. Prif nod Yn Awyddus i Weithio yw nodi a llenwi bylchau mewn rhaglenni cyflogaeth prif ffrwd, gan greu mwy o gyfleoedd cymorth marchnad waith mewn lleoliadau cymunedol i fwy o unigolion na'r hyn a ddarperir gan raglenni marchnad waith craidd.

11 **Paru Swyddi,** gyda chyllideb ESF o **£16.2 miliwn**, yw cangen gyflawni Adnewyddu Strategol Blaenau'r Cymoedd. Mae'n canolbwyntio ar helpu pobl ddi-waith ddifreintiedig o bob oed i gael a chadw swydd. Mae'r rhaglen yn darparu arweiniad, hyfforddiant a swyddi i bobl sy'n economaidd anweithgar ar draws Blaenau'r Cymoedd. Mae ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen.

**Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**

12 Mae 3 adolygiad wedi cael eu gwneud yn ddiweddar ar ddiweithdra ymhlith ieuenctid a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r adolygiadau hyn, a ystyrir fel mesurau ataliol, ar waith ar hyn o bryd ledled Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau dysgu rhag dod yn bobl ifanc NEET.

a. Adolygiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) a oedd yn ystyried diweithdra ymhlith ieuenctid yng Nghymru ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r mater.

b. Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiweithdra Ieuenctid, a sefydlwyd gan y Gweinidog dros PADGOS ac a gadeiriwyd gan Martin Mansfield o TUC Cymru, oedd â chanolbwynt gweithredol ac a oedd yn ceisio adeiladu ar yr argymhellion a gafwyd yn adroddiad WESB i lywio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w argymhellion.

c. Grŵp Adolygu Gweithredol NEET, a oedd yn grŵp mewnol a oedd yn cynnwys arweinwyr polisi o Lywodraeth Cynulliad Cymru, a

sefydlwyd i wneud adolygiad o daith plant a phobl ifanc a allai fod yn economaidd anweithgar neu wedi ymddieithrio o ddysgu.

13 Roedd pob un o'r adolygiadau hyn yn ystyried effaith polisi ar bobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol, fel rhan o'u cylch gwaith eang.

14 Roedd y grwpiau'n cydnabod bod pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol yn ffactor a allai gynyddu'r tebygolrwydd y gallent ddod yn bobl ifanc NEET. Roedd y grŵp yn cydnabod y gwaith a oedd yn cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i atal y grŵp hwn rhag dod yn bobl NEET, gan gynnwys penodi **gweithwyr trosglwyddo allweddol** i bobl ifanc anabl a mesurau ataliol fel cyfres o brosiectau peilot a fydd yn arwain at ddatblygu system arloesol a gwell ar gyfer sicrhau bod **anghenion dysgu ychwanegol** (ALN) disgyblion yn cael eu diwallu a bod y disgyblion hynny'n derbyn addysg o safon uchel.

15 Bydd argymhellion y tri grŵp adolygu'n cael eu cyflwyno fel un rhaglen waith ar ffurf y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc. Cytunwyd ar y Cynllun Gweithredu hwn yn y Cabinet ar 27 Medi 2010.

## Cyfnod Pontio

16 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i helpu pobl ifanc ag anawsterau dysgu i ganfod cyflogaeth trwy eu cynorthwyo trwy'r cyfnod pontio rhwng addysg a chyflogaeth gynaliadwy a thrwy roi'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol iddynt.

### *Gweithwyr Pontio Allweddol*

17 Penodir gweithwyr allweddol i gynorthwyo pobl ifanc a'u teuluoedd trwy'r cyfnod pontio trwy deilwra'r gwasanaethau i unigolion ar sail asesiad o'u hangen a chydweithio rhyngasiantaeth ar lefelau strategol ac ymarfer.

18 Roedd sefydlu gweithwyr allweddol yn un o gamau gweithredu allweddol 'Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' Llywodraeth y Cynulliad, ac roedd yn argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ELLS blaenorol ar broses pontio pobl ag Anghenion Addysgol Arbennig (SEN).

19 Yn 2008, darparodd Llywodraeth y Cynulliad **£1.5 miliwn** dros dair blynedd **i bum prosiect peilot** ledled Cymru a sefydlwyd ar sail gwaith a oedd yn cael ei wneud eisoes, er mwyn canfod beth oedd yn gweithio orau. Mae'r prosiectau peilot hyn, a reolir gan Rwydwaith Cydlynu Gofal Dros y DU (CCNUK), wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran rhoi cymorth uniongyrchol i drawstoriad o bobl ifanc anabl a chyflawni meini prawf asesu allweddol y cytunwyd arnynt.

20 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu CCNUK i ddatblygu **safonau gweithwyr allweddol diwygiedig** er mwyn adlewyrchu'r cyfnod pontio (hyd at 25 oed) ac i ddatblygu **fframwaith gweithwyr pontio allweddol** i ddarparu arweiniad ar ddatblygu a chynnal gwaith allweddol yng

Nghymru. Mae enghreifftiau o arferion gorau'r prosiectau peilot yn cael eu defnyddio i gefnogi hyn.

21 Dosbarthwyd adborth ar waith y prosiectau peilot mewn cynhadledd ym mis Mawrth eleni, a fynychwyd gan y Dirprwy Weinidog Dros Blant. **Mae cynhadledd arall wedi'i chynllunio ar gyfer mis Mawrth 2011.** Defnyddiwyd cynhadledd eleni hefyd i lansio **canllaw pontio** Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc o'r enw **'Fy Mywyd I, Fy Ffordd I'** a ysgrifennwyd ar gyfer y Cynulliad gan Anabledd Dysgu Cymru mewn cydweithrediad â phobl ifanc anabl.

22 Rydym yn parhau â'n gwaith â **Chanolfan Anableddau Dysgu Cymru** gyda'r bwriad o lunio canllawiau i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â phroses bontio pobl ag anghenion addysgol arbennig.

23 Eleni, neilltuwyd **£1.5 miliwn ychwanegol o arian ESF** dros dair blynedd o dan **'Cyrraedd y Nod'** a fydd yn lleoli gweithwyr pontio mewn 15 ardal gydgyfeirio.

24 Bydd y gwaith hwn yn ategu cyllid ESF tebyg a gymeradwywyd ar gyfer **Menter Rhanbarthol Trosglwyddo Pobl ag Anghenion Addysgol Arbennig i Gyflogaeth** (sy'n cynnwys 10 ardal awdurdod lleol gydgyfeirio a arweinir gan Gyngor Sir Caerffili o Ysgol Arbennig Trinity Fields). Mae'r prosiect hwn yn seiliedig ar fodel llwyddiannus a weithredwyd i ddechrau yn Ysgol Arbennig Trinity Fields yng Nghaerffili, ac mae'n ceisio gwella canlyniadau addysgol pobl ifanc sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae'r arian ESF wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu timau pontio penodol (sy'n cynnwys gweithiwr pontio allweddol) sy'n gweithio mewn canolfannau sy'n gysylltiedig ag ysgolion arbenigol fel arfer.

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen AAA Ôl-16**

25 Ym mis Mawrth eleni, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fod yn gyfrifol am wneud argymhellion yn y meysydd canlynol:

- sefydlu system bontio fwy unedig a gwell i ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion neu AB i bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu (LDD) dros 16 oed;
- sicrhau mwy o werth am arian o ran gwariant ar addysg ôl-16 i bobl ifanc ag LDD, yng nghyd-destun yr her ariannol dros y 3 mlynedd nesaf yn benodol;
- rhannu mwy o'r arbenigedd sydd ar gael eisoes mewn ysgolion a cholegau AB arbenigol o ran darparu ar gyfer LDD ôl-16;
- defnyddio lleoliadau y tu allan i'r sir a thu allan i'r wlad; a
- buddsoddi mewn darpariaeth ysgolion ac AB ôl-16 i bobl ifanc ag LDD.

26 Mae'r grŵp wrthi'n gorffen ei adroddiad ysgrifenedig.

**Diwygio'r Broses Asesu a Gwneud Datganiadau Statudol ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

27 Mae'r datblygiadau i wella'r cyfnod pontio yn cael eu datblygu mewn cyd-destun agenda diwygio ehangach a gynlluniwyd i ddatblygu system

arloesol a gwell o sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael yr anghenion hynny wedi'u diwallu a'u bod yn derbyn safon uchel o addysg.

28 Mae yna bedwar prosiect peilot ar waith sy'n cynnwys 8 awdurdod ledled Cymru a fydd yn llywio newidiadau i'r broses gyfredol o asesu a gwneud datganiadau statudol i'r rhai ag AAA. Mae'r pedwar cynllun peilot yn dod i ben yn 2011 ac maent yn cynnwys:

- Sicrhau ansawdd darpariaeth ALN
- Model rhyngddisgyblaethol i blant a phobl ifanc ag anghenion dwys a chymhleth
- Model i blant a phobl ifanc ag anghenion llai cymhleth
- Rôl Cydgysylltydd ALN

**Sgil Cymru**

29 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu **Sgil** (Sefydliad cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr anabl) am dair blynedd o 2009-10 i ddatblygu ei waith yng Nghymru. Mae Sgil yn gweithio gyda dysgwyr, darparwyr dysgu, sefydliadau statudol a sefydliadau gwirfoddol eraill i hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Sgil yn darparu cyngor ar ddim i fyfyrwyr anabl ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys y broses bontio i fyd gwaith, trwy ei linell gymorth a'i wefan, a thrwy ganfod ffynonellau eraill o wybodaeth a chyngor fel y bo'n briodol.

**Strategaeth Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ("ASD") – Hyrwyddwr Cyflogaeth**

30 Ym mis Mehefin eleni, darparodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r Strategaeth ASD. Roedd y rhain yn cynnwys:

31 Mae pecynnau codi ymwybyddiaeth i ystod eang o grwpiau proffesiynol sy'n gweithio neu'n dod i gysylltiad gyda phobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd yn cael eu datblygu ar lefel genedlaethol. Caiff y deunyddiau hyn eu dosbarthu'n eang yng Nghymru i bob meddygfa, ysgol a choleg, Gyrfa Cymru, Canolfannau Byd Gwaith, i gyflogwyr ac asiantaethau sy'n rhan o'r system gyfiawnder troseddol, ac eraill. Bydd Gwenda Thomas AC yn lansio'r deunyddiau hyn ar **25 Tachwedd 2010** yn y Senedd.

32 Yn ogystal â deunyddiau codi ymwybyddiaeth, mae yna nifer o gamau gweithredu a ariennir gyda'r bwriad o wella rhagolygon cyflogaeth pobl ag awtistiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys penodi **Cennad Cyflogaeth Awtistig Cymru**, a fydd yn hyrwyddo agweddau positif cyflogi pobl sydd ag awtistiaeth ymysg busnesau ledled Cymru. Bydd Cennad Cyflogaeth Awtistig Cymru'n cael ei lansio'n ffurfiol ar **25 Tachwedd 2010.**

**Cymorth Dysgu Ychwanegol i Ddysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg alwedigaethol brif ffrwd a dysgu seiliedig ar waith**

33 Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn derbyn cyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau'r cymorth dynol a/neu dechnegol sydd ei angen i wneud eu darpariaeth prif ffrwd yn hygyrch i ddysgwyr anabl. Yn 2009-10 neilltuwyd dros **£6 miliwn** i'r diben hwn.

**Gyrfa Cymru**

34 Mae **Gyrfa Cymru Ar-lein** (www.gyrfacymru.com) yn wasanaeth rhyngweithiol arloesol, sy'n darparu gwybodaeth, cyfarpar ac adnoddau dwyieithog i gynorthwyo pob oed, dysgu gydol oes a chynllunio gyrfa. Mae'n defnyddio technolegau blaengar i ddarparu gwybodaeth mewn modd hygyrch a chefnogol, ac mae wedi ennill BAFTA am gynhwysiant technegol a chymdeithasol.

35 Mae'r wefan yn cefnogi **llwybrau dysgu 14-19** trwy ddewislenni gwe a chynlluniau dysgu a chyn bo hir, bydd yn lansio system archebu genedlaethol ar gyfer profiad gwaith ysgolion. Yn ogystal â hyn, mae'r wefan yn cynnwys **gwybodaeth wahaniaethol i ddefnyddwyr ag anawsterau dysgu**, sy'n mynd i'r afael â phynciau fel **sgiliau byw'n annibynnol, gwneud penderfyniadau a chynllunio pontio.**

**Rhaglenni Lleoliad Gwaith o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru**

36 Mae yna 3 rhaglen lleoliad gwaith ar waith i hyrwyddo cyflogaeth pobl anabl, ac mae'r rhain yn cynnwys pobl ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl.

**Cynllun Cyflogaeth dan Gymorth**

37 Lansiwyd y Cynllun Cyflogaeth dan Gymorth yn 2008 i alluogi ymgeiswyr a oedd wedi'u dynodi fel pobl anghyflogadwy gan wasanaethau statudol neu gyflogwyr o'r farn na allent eu cyflogi i gael profiad o weithio yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r cynllun yn darparu hyfforddwr un-i-un i weithio gyda'r ymgeisydd am gyfnod o 30 diwrnod (di-dâl) wrth ddysgu yn y swydd ac, yn dilyn adolygiad, cynigir lleoliad 6 mis am dâl gyda'r posibilrwydd o estyniad o hyd at 50 wythnos.

38 Hyd yma, mae'r cynllun wedi cynorthwyo 12 ymgeisydd. Llwyddodd 8 ohonynt i gael lleoliad am dâl ac, erbyn hyn, mae 3 o'r rhain wedi cael swyddi parhaol.

**Cynllun Remploy**

39 Mae Cynllun Remploy yn cynnig lleoliadau gwaith am dâl o hyd at 50 wythnos i ymgeiswyr ag amrywiaeth o anableddau. Hyd yma, mae 3 unigolyn wedi elwa ar leoliad. Ar y cychwyn, mae'r tîm lleoli ac allgymorth yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ledled y sefydliad ac yn gweithio gyda rheolwyr i nodi cyfleoedd addas sy'n galluogi cyfranogwyr i ennill

amrywiaeth eang o sgiliau allweddol a fydd yn gwella eu siawns o gael gwaith yn y dyfodol.

40 Mae'r tîm lleoli ac allgymorth yn aros mewn cysylltiad â'r unigolion trwy gydol y lleoliadau. Darperir unrhyw gymorth ychwanegol fel sy'n briodol a chaiff adolygiadau gyda'r lleoliad eu cwblhau bob 3 neu 6 mis.

**<u>Lleoliadau Profiad Gwaith</u>**

41 Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gynllun lleoliadau profiad gwaith 5 diwrnod ar gyfer plant o oedran ysgol sydd wedi bod yn agored i ddisgyblion o bob gallu ers mis Ebrill 2008. Hyd yma, mae dau fyfyriwr ag anawsterau dysgu wedi cwblhau lleoliad. Rhoddir ystyriaeth fanwl wrth leoli myfyrwyr ag anawsterau dysgu i sicrhau eu bod yn cael eu lleoli yn y maes y mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Hefyd, gwneir trefniadau i'w gweithiwr cymorth fynd gyda nhw. Yn dibynnu ar lefel y cymorth sydd ei angen, trefnir cyfarfodydd yn ysgol y disgybl cyn y lleoliad i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen. Mae adborth gan reolwyr a lleoliadau disgyblion wedi bod yn gadarnhaol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog plant o bob gallu i fanteisio ar y cynllun hwn.

42 Yn ôl gwerthusiad a dadansoddiad annibynnol o'r cynllun hwn a chynlluniau lleoli eraill a gynhaliwyd gan ymgynghoriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth arbenigol yn gynharach eleni, roedd profiad staff Llywodraeth y Cynulliad a'r rheini a gafodd eu lleoli gyda Llywodraeth y Cynulliad yn gadarnhaol dros ben. Mae gwaith pellach i asesu ffocws cynlluniau lleoliad gwaith yn Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol wrthi'n cael ei gyflawni fel rhan o Strategaeth Cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad.

**Gwaith Allgymorth**

43 Mae staff Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoedd gydag ysgolion. Un enghraifft yw'r cysylltiadau rydym wedi'u datblygu gydag Ysgol Woodlands yn Nhrelái, Caerdydd. Mae'r ysgol yn cael ei mynychu gan ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig cymedrol i ddifrifol, gan gynnwys anableddau dysgu. Mynychodd staff ddiwrnod diwydiant blynyddol yr ysgol, sydd wedi arwain at ddau o fyfyrwyr Ysgol Woodlands yn cael profiad gwaith gyda Llywodraeth y Cynulliad.

44 Hefyd, bu staff Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n ddiweddar yn hyrwyddo gwaith i recriwtio Prentisiaid i Lywodraeth y Cynulliad yn nigwyddiad SgilCymru a gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm.

**Polisïau Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi pobl ag anableddau dysgu yn y gwaith**

45 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl a chreu gweithle sy'n rhydd o wahaniaethu, aflonyddu a bwlio.

46 Gall staff sy'n rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am anabledd dysgu gael cymorth gan y Tîm Iechyd Galwedigaethol fel rhan o broses o

ystyried pa **addasiadau rhesymol** y gellir eu gwneud i ddiwallu anghenion staff anabl. Er enghraifft, aethom ati i ddarparu meddalwedd arddweud i gefnogi gweithiwr cyflogedig â dyslecsia.

47 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi pob math o rwydweithiau staff mewnol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys **Rhwydwaith Cefnogi Staff mewn perthynas ag Ymwybyddiaeth o Anabledd** sy'n agored i staff sydd am rannu syniadau a phryderon a gweithio gyda'r sefydliad i hyrwyddo cyfle cyfartal i weithwyr cyflogedig ag anabledd.

## Data staff Llywodraeth y Cynulliad ar bobl ag anabledd dysgu

48 Ar 30 Medi 2010, mae 10[1] o weithwyr cyflogedig wedi dewis datgan bod ganddynt anabledd dysgu.

## Gwaith cynllunio gweithlu Llywodraeth y Cynulliad yn targedu anabledd

49 Ym mis Ebrill 2008, gosododd Llywodraeth y Cynulliad dargedau ar gyfer nifer y staff a gyflogir yn y band Rheoli Gweithredol ac yn ein Huwch Wasanaeth Sifil fesul rhyw, hil ac anabledd. Penderfynwyd canolbwyntio ar fandiau Rheoli Gweithredol ac Uwch Wasanaeth Sifil oherwydd, yn ôl ein data recriwtio a chynrychiolaeth, dyma lle mae angen recriwtio mwy o unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

50 Cyhoeddir cynnydd yn erbyn y targedau bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr. Y targed oedd cyflogi 3% o staff anabl ar lefel Uwch Wasanaeth Sifil a 4% yn y band Rheoli Gweithredol. Ym mis Mawrth eleni, cyflawnwyd ein targed o gyflogi 4% o staff anabl yn y band Rheoli Gweithredol, ac roedd yr un ganran yn cael ei chyflogi ar lefel Uwch Wasanaeth Sifil. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod nifer y staff anabl a gyflogir ar y lefel hwn yn isel, felly byddwn yn dechrau datblygu sail dystiolaeth tua diwedd 2010-11 i lywio targedau newydd ar gyfer y dyfodol.

51 Mae arolwg staff blynyddol Llywodraeth y Cynulliad yn gyfle i staff fynegi eu barn am weithio i Lywodraeth y Cynulliad. Yn arolwg 2008, nodwyd bod staff anabl yn ymateb yn fwy negyddol na staff eraill i lawer o gwestiynau'r arolwg. Mewn ymateb i hynny, cyflawnodd aelod o Fwrdd Rheoli Llywodraeth y Cynulliad (y Bwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol erbyn hyn) rywfaint o waith i archwilio barn a phrofiadau staff anabl. Mae hyn wedi helpu i lywio gwaith rydym yn ei gyflawni ar hyn o bryd i ddatblygu **rhaglen beilot gweithredu cadarnhaol** a fydd yn targedu staff anabl, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu penodol i'w helpu i symud ymlaen yn eu gyrfa.

52 Rydym hefyd yn cyfrannu at waith sy'n cael ei gyflawni gan Dasglu Anabledd y Gwasanaeth Sifil i ddeall pam mae ymatebion staff anabl ar

---

1

**Mathau o weithwyr cyflogedig na chânt eu cynnwys: Asiantaeth, Staff ar Drosglwyddiad, Staff a Ymgysylltir yn Lleol, Profiad Gwaith, Oriau Sero, Ymgynghorwyr a Chontractwyr*

draws y Gwasanaeth Sifil yn fwy negyddol nag ymatebion unrhyw staff eraill i gwestiynau yn arolwg staff y Gwasanaeth Sifil, y bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ei fabwysiadu yn 2010. Rydym yn gobeithio y bydd yr adborth yn llywio ein gwaith o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle yn y dyfodol ac, yn arbennig, yn dangos sut y gallwn ddiwallu anghenion staff unigol yn well.

**Dyletswydd Cyflogaeth Cydraddoldeb**

53 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i gyflawni ei dyletswydd cyflogaeth cydraddoldeb (o osodir gan ddyletswyddau penodol y Ddeddf Cydraddoldeb Hiliol) trwy gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb cyflogwyr blynyddol. Rydym eisoes yn gweithio tuag at gyhoeddi adroddiad 2009-10. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl hefyd yn amlinellu sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo arferion cydraddoldeb cyflogaeth da.

54 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol newydd ar gyfer y sector cyhoeddus a ddaw i rym ym mis Ebrill 2011. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf.

55 Diben y dyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd hyn yw gwella perfformiad y ddyletswydd gyffredinol gan y sector cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn diogelu pobl ag anawsterau dysgu rhag dioddef gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio. Bydd angen i gyrff cyhoeddus hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da gyda phobl ag anawsterau dysgu.

56 Dechreuodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar ddrafft Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ar 21 Medi, a bydd yn dod i ben ar 17 Rhagfyr. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, byddai unrhyw ddyletswyddau o'r fath yn dod o dan ddyletswyddau penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Tystiolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith**

**Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau i Ddysgu yn Seiliedig ar Waith ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Agored i Niwed**

**Diben**

Gwahoddwyd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith i gyflwyno tystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2$^{il}$ Tachwedd.

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r dystiolaeth a gyflwynir yma sy'n canolbwyntio ar y tri chwestiwn ymchwilio y mae'r Adran yn y sefyllfa orau i'w hateb:

- Argaeledd ac ansawdd rhaglenni hyfforddi, a lleoliadau sy'n seiliedig ar waith, yn enwedig lleoliadau sy'n addas ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed;
- Cymorth ariannol i bobl ifanc a ariennir yn annibynnol gan gynnwys lwfansau hyfforddi, Lwfans Cynhaliaeth Addysgol, budd-daliadau ac arian ar gyfer costau teithio; ac
- Effeithiolrwydd asiantaethau yn cydweithredu/gweithio mewn partneriaeth ar faterion yng Nghymru.

**Cefndir**

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**

Crëwyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Mehefin 2001 'er mwyn hyrwyddo cyfle ac annibyniaeth i bawb’. Mae DWP yn gyfrifol am bolisi lles a phensiwn ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant. Hon yw'r adran cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd fwyaf yn y DU ac mae'n gwasanaethu dros 20 miliwn o gwsmeriaid.

Mae gan yr Adran gyfrifoldeb penodol am bobl ifanc sy'n hawlio budd-daliadau. Gall pobl ifanc 16 oed a throsodd sydd ar gyflog isel, yn chwilio am waith, yn anabl neu'n gofalu am blentyn neu berson hŷn hawlio budd-daliadau.

Gan fod y gwaith o lunio polisïau Addysg a Sgiliau wedi'i ddatganoli mae DWP yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban, a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran Addysg yn Lloegr, i ddarparu gwasanaethau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ledled y DU. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb penodol am ddarpariaeth dysgu a hyfforddiant yng Nghymru.

**Canolfan Byd Gwaith**

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Lansiwyd y Ganolfan Byd Gwaith ym mis Ebrill 2002, ac mae wedi uno'r Gwasanaeth Cyflogaeth a'r rhannau o'r Asiantaeth Budd-daliadau a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl o oedran gweithio. Ei nod yw helpu mwy o bobl i mewn i waith a helpu mwy o gyflogwyr i lenwi eu swyddi gwag, a rhoi'r help a chymorth y mae gan bobl o oedran gweithio hawl i'w gael.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r agenda les yng Nghymru ac ymgynghori ar effaith bosibl datganoli ar raglenni a mentrau a gyflwynir gan DWP ledled Prydain Fawr. Wrth sefydlu'r 'gwahaniaethau' ar gyfer Cymru mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn parhau i hyrwyddo cydlyniad rhwng y gwledydd a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael mynediad cyfartal i raglenni a gwasanaethau.

## Ymateb i'r Ymchwiliad

### Darparu lleoliadau gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n agored i niwed

Caiff llawer o'r hyfforddiant sydd ar gael i bobl ar fudd-daliadau ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid. Fodd bynnag mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn darparu nifer o raglenni cenedlaethol sydd ar gael i hawlwyr budd-daliadau ifanc dros 18 oed yng Nghymru.

Cyhoeddodd Gweinidogion y bydd nifer o raglenni cyflogaeth genedlaethol sy'n bodoli eisoes yn cael eu dileu'n raddol drwy gyflwyno Rhaglen Waith newydd o haf 2011. Bydd y Rhaglen Waith newydd yn cefnogi ystod eang o gwsmeriaid - o bobl sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith sydd wedi bod allan o waith ers amser, i gwsmeriaid sydd wedi bod yn cael budd-daliadau analluogrwydd ers sawl blwyddyn. Bydd y Rhaglen Waith yn darparu cymorth personol yn seiliedig ar anghenion unigolion. Caiff cymhellion cryfach eu cynnig i bartneriaid darparu i weithio gyda chwsmeriaid sy'n anoddach eu helpu.

Hyd nes i'r Rhaglen Waith gael ei chyflwyno bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod cymorth ar gael. Mae rhaglenni'r Adran a oedd â'r nod o roi cymorth i bobl ifanc drwy'r dirwasgiad yn parhau, gan gynnwys y Gwarant i Bobl Ifanc.

Gall pobl ifanc hefyd gael gafael ar raglenni cyflogaeth y brif ffrwd fel Treialon Gwaith sy'n cynnig cyfnod treial byr mewn sefyllfa swydd go iawn, am hyd at 15 (ac mewn achosion eithriadol, 30) diwrnod gwaith. Maent yn rhoi cyfle i gwsmeriaid di-waith brofi eu hunain i gyflogwr heb orfod ildio sicrwydd budd-dal. Mae'r cyflogwr a'r cwsmer yn cymryd rhan heb rwymedigaeth.

Gall gwsmeriaid ifanc hefyd fanteisio ar gyfleoedd sydd ar gael yn lleol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Sefydlwyd y Gronfa i wella cyfleoedd cyflogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd ac felly helpu i wella safonau byw. Ei nod yw helpu pobl i wireddu eu potensial drwy roi gwell sgiliau a rhagolygon swydd iddynt. Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn amrywio ar draws Cymru, Lloegr a'r o ran eu hamcanion a'r math o gwsmeriaid y maent yn eu cefnogi.

### Cymorth ariannol i bobl ifanc a ariennir yn annibynnol

Yn gyffredinol, daw cymorth ariannol i bobl ifanc sydd am astudio'n llawn amser o'r system cynhaliaeth addysgol, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer eu hanghenion. Fodd bynnag mae'r Adran yn cydnabod bod addysg rhai pobl ifanc yn cael ei amharu o ganlyniad i anawsterau yn eu bywyd teuluol, ac mae angen ail gyfle arnynt i ddysgu. Felly mae hawl gan rai grwpiau sy'n agored i niwed hawlio budd-daliadau tra eu bod yn astudio llawn amser.

Gall pobl ifanc y mae'n rhaid iddynt fyw oddi cartref[2] ond sydd am ddychwelyd at addysg neu barhau mewn addysg hawlio cymhorthdal incwm a budd-dal tai rhwng eu pen-blwyddi yn 16 ac 21 oed cyn belled â'u bod yn bodloni'r rheolau arferol ar gyfer cael y budd-daliadau hynny (cynilion, preswylio yn y DU ac ati). Rhaid i'r cwrs fod yn un llawn amser (12 awr neu fwy yr wythnos) nad yw'n addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy a gynhelir mewn ysgol neu goleg neu rywle a gymeradwyir o dan y rheolau Budd-dal Plant[3]. Gallant hefyd fod yn gymwys i gael Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn ychwanegol at eu cymhorthdal incwm ac hefyd fudd-dal tai os ydynt yn gyfrifol am dalu rhent.

Ar hyn o bryd mae'r Adran yn gofyn i'r person ifanc hwnnw ddechrau ei gwrs ar ei ben-blwydd yn 19 oed neu cyn hynny. Mae hyn yn golygu y bydd person ifanc sydd wedi dechrau neu gofrestru mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch ac sy'n gallu hawlio cymhorthdal incwm (a budd-dal tai os yn berthnasol) gan ei fod wedi dieithrio o'i rieni neu ofalwr, ar ei ben-blwydd yn 19 oed, yn gallu parhau i hawlio tan ddiwedd ei gwrs neu ei ben-blwydd yn 21 oed, p'un bynnag sydd gynharaf. Mae swyddogion DWP yn edrych a all y terfyn oedran is hwn o 19 gael ei ddileu.

Hefyd, mae hyfforddiant llawn amser ar gael i geiswyr gwaith dros 18 oed sydd yn wynebu rhwystrau sylweddol i gyflogaeth. Mae hawlwyr sy'n cael eu cyfeirio at hyfforddiant llawn amser gan y Ganolfan Byd Gwaith yn cael lwfans hyfforddi yn hytrach na Lwfans Ceisio Gwaith. Yn gyffredinol, telir y lwfans hwn ar yr un gyfradd â Lwfans Ceisio Gwaith ond mewn rhai rhaglenni gall gynnwys lwfans ychwanegol o naill ai £10 neu £15.38 yr wythnos, naill ai fel cymhelliant i ddechrau hyfforddi neu i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen.

Gall Ceiswyr Gwaith gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant ran amser unrhyw bryd yn ystod eu cais. Caiff rhan amser ei ddiffinio fel llai nag 16 awr yr wythnos. Fodd bynnag, rhaid i hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith barhau i fod ar gael i weithio a bod wrthi'n chwilio am waith yn bennaf a rhaid iddynt addasu astudiaethau rhan amser i gyd-fynd â chynnig am swydd neu gyfweliadau neu raglenni gorfodol y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae help tuag at gostau teithio a gofal plant ar gael i'r rheini sy'n cael budd-daliadau sy'n cael eu cyfeirio at hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar waith gan y Ganolfan Byd Gwaith, er hynny mae amodau a chyfyngiadau yn berthnasol.

Ni thelir Lwfans Ceisio Gwaith i bobl ifanc 16-17 oed fel arfer, ac eithrio mewn achosion arbennig fel caledi difrifol. Ni chaiff 'Caledi difrifol' ei ddiffinio yn ôl y gyfraith, yn hytrach caiff pob cais ei ystyried yn unigol a chaiff amgylchiadau unigolyn eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Mae pobl ifanc

---

2 Gall pobl ifanc gael Cymhorthdal Incwm os ydynt, o anghenraid, yn byw oddi wrth eu rhieni neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar eu rhan oherwydd: eu bod wedi'u dieithrio; eu bod mewn perygl corfforol neu foesegol, neu bod risg difrifol i'w hiechyd corfforol neu feddyliol.

3 Addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch yw Safon Uwch/NVQ3 neu is neu gyrsiau Sylfaen neu gyrsiau cyfatebol. Mae hyfforddiant wedi'i gymeradwyo yng Nghymru yn golygu trefniadau o dan ddeddfwriaeth benodol a elwir yn Adeiladu Sgiliau, Adeiladu Sgiliau + neu Brentisiaethau Modern Sylfaenol.

sy'n byw yn annibynnol yn enghraifft o un grŵp a allai hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar sail caledi difrifol.

Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael budd-daliadau yn cael y cymorth cywir, mae gan y Ganolfan Byd Gwaith ymgynghorwyr arbenigol ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd wedi'u hyfforddi i roi cymorth i gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Mae'r ymgynghorwr arbenigol yn gweithio gyda phobl ifanc i archwilio nodau/cyfleoedd swyddi a nodi rhwystrau i weithio. Maent yn rhoi help a gwasanaethau priodol i gefnogi taith pobl ifanc at waith (er enghraifft cyfrifiadau gwell eich byd mewn gwaith, gwybodaeth am y farchnad lafur leol, cyngor ar fudd-daliadau, asesu ceisiadau ar gyfer Lwfans Pontio). Mae'r ymgynghorwr arbenigol yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gynnig darpariaeth addysg/hyfforddiant leol briodol a gwasanaethau perthnasol eraill i helpu'r person ifanc i symud at addysg neu gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys cael cyswllt gyda Gyrfa Cymru.

Mae gofyn i bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed yng Nghymru sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith gofrestru gyda Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad ar hyfforddiant a gwaith i'r grŵp hwn. Os bydd person ifanc sy'n cael taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith yn penderfynu dilyn hyfforddiant llawn amser (er enghraifft Adeiladu Sgiliau), bydd darparwyr hyfforddiant yn talu lwfans hyfforddi iddo o £50 yr wythnos yn lle taliad Lwfans Ceisio Gwaith[4] (na ellir ei dalu yn ystod yr hyfforddiant). Bydd Ymgynghorydd Dan-18 y Ganolfan Byd Gwaith yn sicrhau bod y person ifanc hefyd yn gwneud cais am daliad budd-dal ychwanegol o £1.85 sy'n ei alluogi i wneud cais am fudd-daliadau pasbort. Bwriad y taliad ychwanegol hwn yw sicrhau nad yw'r person ifanc o dan anfantais ariannol drwy ddilyn hyfforddiant.

**Asiantaethau yn cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru**

Mae Canolfan Byd Gwaith Cymru yn gweithio yn rheolaidd gydag ystod o bartneriaid i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru, a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol:

*Gyrfa Cymru*

Mae Gyrfa Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar yrfaoedd i bobl ifanc ledled Cymru. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru yn gweithredu o dan Femorandwm Dealltwriaeth ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i sicrhau gweledigaeth a rennir fod pob unigolyn 16 oed a throsodd yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o'r ansawdd a'r safonau gorau posibl.

*Y Sector Gwirfoddol a'r Sector Cymunedol*

Mae gan Ganolfan Byd Gwaith Cymru gytundeb cenedlaethol gydag Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru a Fairbridge Cymru. Mae pob sefydliad yn cynnig ystod o raglenni sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ledled Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig hyfforddiant a chyflogaeth nad yw o dan gontract y caiff

4 Uchafswm y gyfradd wythnosol ar gyfer pob hawliwr Lwfans Ceisio Gwaith 16-24 oed yw £51.85.

rhywfaint ohono ei ddarparu drwy Raglen Adeiladu Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru yn gweithio gydag ystod o sefydliadau sy'n helpu pobl ddigartref gan gynnwys Shelter Cymru, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chymuned Wallich Clifford. Mae ganddi gysylltiadau cryf â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi cyfrannu at ei hagenda digartref drwy fynd i gyfarfodydd strategol perthnasol ac ymgynghoriadau amrywiol.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu mentrau penodol yng Nghymru sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc gan gynnwys:

*Menter Cefnogi Cyflogaeth Gatiau'r Ysgol*
Mae Menter Cefnogi Cyflogaeth Gatiau'r Ysgol yn darparu pecyn cymorth i famau neu bartneriaid nad ydynt yn gweithio mewn teuluoedd cypledig, sy'n wynebu risg o dlodi ac sydd wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan y dirwasgiad. Nod y fenter hon yw cynyddu'r cymorth cyflogaeth a menter sydd ar gael i rieni yn ysgolion eu plant ac o'u hamgylch. Gobeithio y bydd y fenter yn helpu i gynyddu nifer y rhieni sydd mewn teuluoedd incwm isel i gael gwaith. Caiff y fenter ei darparu mewn partneriaeth rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.

*Cynlluniau peilot y Canolfannau Integredig i Blant*
Mae cynlluniau peilot cymorth cyflogaeth y Canolfannau Integredig i Blant yn cael eu cynnal mewn pedair Canolfan i Blant. Mae'r cynlluniau peilot yn profi dull integredig o ymgysylltu rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n wynebu risg o dlodi mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â'r farchnad lafur, i'w helpu i symud yn agosach at gyflogaeth. Mae Ymgynghorwyr Personol ymrwymedig y Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio'n agos gyda Chymunedau'n Gyntaf a phartneriaid eraill i gynnig gwasanaeth personol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

*Anelu at Waith (Allgymorth cymunedol ar ystadau)*
Yn ddiweddar mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi ehangu ei gweithgarwch partneriaeth i fynd i'r afael â'r broblem o ddiweithdra di-syfl. Mae Anelu at Waith yn rhaglen wirfoddol, sy'n cynnwys tîm o Ymgynghorwyr Personol y Ganolfan Byd Gwaith sydd wedi'u lleoli yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Wrecsam ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu dull cyfannol, amlasiantaethol.